

Safonau'r Iaith Gymraeg – Cyfarfodydd gyda myfyrwyr a'r cyhoedd

O dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011 mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â 14 o Safonau sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd gyda'r cyhoedd a myfyrwyr. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod er mwyn rhoi'r hawl i aelodau o'r cyhoedd a myfyrwyr ddewis p'un ai i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg wrth ddelio â'r Brifysgol mewn cyfarfodydd.

Cyfarfodydd NAD ydynt yn gyhoeddus

Gall y rhain fod yn gyfarfodydd gydag un person yn unig, neu gyda nifer o bobl yn bresennol, ond mae angen i bawb sydd yn bresennol gael gwahoddiad iddo.

1. Cyfarfodydd gydag aelodau o'r CYHOEDD neu FYFYRWYR

Mae'r Safonau yn gwahaniaethu rhwng cyfarfodydd gydag un person yn unig a'r rhai lle mae nifer o bobl yn bresennol ac maent yn ystyried pwrpas y cyfarfod.

1.2. Cyfarfodydd rhwng y Brifysgol a MWY NAG UN person gwahoddedig

Os byddwch yn cynnal cyfarfod gyda mwy nag un person gwahoddedig dylid ystyried:

- A oes un neu fwy o'r unigolion gwahoddedig yn :
 - destun **cwyn** neu wedi gwneud cwyn
 - destun achos **disgyblu**
 - derbyn darpariaeth **cymorth** myfyriwr (myfyrwyr yn unig)

ac os ydynt rhaid i chi ofyn iddynt a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a'u hysbysu nhw y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael os bydd angen, os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Os bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd bydd angen trefnu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg AC o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd angen dau gyfieithydd ar gyfer gwneud hyn. Yr arfer gorau yw ceisio canfod siaradwyr Cymraeg fel bod modd cynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl yn Gymraeg.

- Os **NAD oes a wnelo'r cyfarfod â chwyn am/gan, disgyblu neu gymorth myfyriwr** un neu ragor o'r unigolion gwahoddedig, rhaid i chi ofyn iddynt a ydynt yn dymuno siarad Cymraeg yn y cyfarfod. Os bydd o leiaf **10% o'r gwahoddedigion** wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod, os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

- Os bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd bydd angen trefnu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn unig.
- Gweler yr adran ar drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd

1.3 Cyfarfodydd rhwng y Brifysgol ac UN person gwahoddedig.

Os byddwch yn cynnal cyfarfod gydag un person gwahoddedig dylid:

- Gofyn a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a rhoi gwybod iddo ef/iddi hi y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y pwrpas hwnnw.
- Os oes rhywun wedi rhoi gwybod i chi ei fod ef/ei bod hi yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.
- Os bydd yr unigolyn sydd wedi rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod lle mae ef/hi yn
 - destun **cwyn** neu wedi gwneud cwyn
 - destun achos **disgyblu**
 - derbyn darpariaeth **cymorth** myfyriwr (myfyrwyr yn unig)
 a bod angen cyfieithu ar y pryd – bydd angen trefnu cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg AC o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd angen dau gyfieithydd ar gyfer gwneud hyn. Yr arfer gorau yw ceisio canfod siaradwyr Cymraeg fel bod modd cynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl yn Gymraeg.
- Gweler yr adran ar drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- Dylid gofyn a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a rhoi gwybod iddo ef/iddi hi y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y pwrpas hwnnw.
- Os oes rhywun wedi rhoi gwybod i chi ei fod ef/ei bod hi yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.
- Gweler yr adran ar drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae hyn yn berthnasol i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr sydd o fewn carfan benodol.

- Dylai gwahoddiadau a deunydd hysbysebu ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ddatgan y bydd croeso i unrhyw un fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod e.e. ***Croesawir cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Contributions are welcomed in Welsh or English.***
- Os byddwch yn gwahodd rhywun i siarad mewn cyfarfod cyhoeddus dylid gofyn iddynt a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg.
- Dylid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn pob cyfarfod cyhoeddus.
- Cyn dechrau'r cyfarfod dylid datgan fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.
- Dylai unrhyw ddeunydd sy'n cael ei arddangos mewn cyfarfod cyhoeddus fod yn Gymraeg ac ni ddylid trin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.
- Gweler yr adran ar drefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.

Trefnu a Hwyluso Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd

Sut mae trefnu Cyfieithu ar y Pryd?

Dylid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (wlcstaff@aber.ac.uk) o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod gyda'r manylion hyn:

- Dyddiad ac amser y cyfarfod
- Lleoliad y cyfarfod
- Pwrpas y cyfarfod
- Awgrym o faint sy'n mynychu a faint nad ydynt yn siarad Cymraeg ac a fydd angen clustffonau

Beth yw Cyfieithu ar y Pryd?

Ystyr 'cyfieithu ar y pryd' yw cyfieithu o un iaith i'r llall tra bo rhywun yn siarad ac mae'n wahanol i ôl-gyfieithu lle mae'r cyfieithydd yn crynhoi ar ôl i'r siaradwr lefaru nifer o frawddegau. Trwy ddefnyddio offer cyfieithu, mae'n bosibl cyfieithu ar yr un pryd â'r siaradwr, sy'n golygu na fydd y cyfarfod yn para'n rhy hir. Fel rheol yng Nghymru byddwn yn cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, oherwydd mae siaradwyr Cymraeg yn *deall* Saesneg, sy'n golygu mai gwasanaeth ar gyfer y di-Gymraeg yw

hwn. Mae'r gwasanaeth yn golygu bod siaradwyr Cymraeg yn cael siarad eu dewis iaith a bod y di-Gymraeg yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod heb drafferth

Mewn sefyllfaoedd lle gall unigolyn fod o dan straen arbennig e.e. achos eu bod yn destun cwyn neu yn wynebu disgyblu, mae'r arfer o gynnig cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ogystal ag o'r Gymraeg i'r Saesneg yn sicrhau bod yr unigolyn yn cael y cyfle gorau posib trwy gyfrwng ei ddewis/dewis iaith. Fodd bynnag, ar gyfer galluogi hyn, rhaid defnyddio dau gyfieithydd, a'r arfer gorau yw ceisio trefnu mai siaradwyr Cymraeg yn unig fydd yn bresennol, os yw hynny'n bosibl, fel bod modd cynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl yn Gymraeg heb gymorth cyfieithwyr.

Templedi defnyddiol.

Dyma enghreifftiau o eiriad posibl ar gyfer y sefyllfaoedd hyn.

Llythyr gwahoddiad i gyfarfod ag unigolyn

Mae gennych hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod hwn. A wnewch chi roi gwybod i ni o flaenllaw, os gwelwch yn dda, pa iaith y byddwch yn defnyddio yn y cyfarfod hwn. Byddwn yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen.

You may use Welsh or English in this meeting. Would you please let us know in advance which language you will be using in this meeting. The simultaneous translation service will be used if necessary.

Llythyr gwahoddiad i gyfarfod â mwy nag un person

Mae gennych hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod hwn. A wnewch chi roi gwybod i ni o flaenllaw, os gwelwch yn dda, pa iaith y byddwch yn defnyddio yn y cyfarfod hwn. Os bydd 10% neu yn fwy ohonoch yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

You may use Welsh or English in this meeting. Would you please let us know in advance which language you would like to use in this meeting. If 10% or more of you wish to use Welsh we will use the simultaneous translation service.

Deunydd hysbysebu cyfarfod agored e.e. poster, gwahoddiad cyffredinol.

Sylwch fod croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwn a bydd cyfieithu ar y pryd ar gael.

Note that you are welcome to use Welsh in this meeting as simultaneous translation will be available.

Gwahoddiad i siaradwr/wraig gwadd

Diolch am gytuno i siarad yn ein digwyddiad. Bydd croeso i chi siarad yn Gymraeg gan y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar y noson.

Thank you for agreeing to speak at our event. You will be welcome to speak in Welsh as simultaneous translation will be available on the night.

Gwahoddiad i gyfarfodydd cyhoeddus

Bydd croeso i bawb sy'n bresennol yn y cyfarfod gyfrannu un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er mwyn ein helpu ni drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen, byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi gwybod a fyddai'n well gennych ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg yn y cyfarfod.

TICIWCH: Os byddaf yn siarad yn y cyfarfod, gwell gennyf gyfrannu:

Yn Gymraeg Yn Saesneg

Rhowch wybod os oes gennych unrhyw ofynion eraill e.e.: system dolen sain, anghenion symudoledd

All those attending the meeting will be welcome to contribute in either Welsh or English. To assist us in providing a simultaneous translation service if necessary, I would be grateful if you would kindly inform me whether you would prefer to use Welsh or English at the meeting.

PLEASE TICK: If I speak at the meeting, I would prefer to contribute:

In Welsh In English

Please notify if you have any other requirements e.g: audio loop system, mobility requirements

Datganiad mewn cyfarfod cyhoeddus (i'w roi ar lafar)

Cyn dechrau'r noson/digwyddiad hoffwn i atgoffa pawb bod croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwn gan fod cyfieithu ar y pryd ar gael.

I have just explained to the Welsh speakers present that they are welcome to speak in Welsh at this meeting as we have a simultaneous translator here tonight/today.

